

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 20 Mai 2011

Preseanol: Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr J East, Mr D Fordham, Ms L Fowlie, Ms D Giles, Mr M Goodwin, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Ms E Riches, Dr D M Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, yr Athro P Spencer, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Yr Athro J Hughes, yr Athro M Khan, Mr E Roberts.

376. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2011.

377. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 367(a) Ystafelloedd a amserlennir yn ganolog:

Mae gweithgor wedi ei sefydlu i drafod pryderon yn ymwneud ag ystafelloedd a amserlennir yn ganolog.

(b) Cofnod 367(b) Adolygiad o beryglon biolegol:

Nodwyd bod ymweliad arolygwr arbenigol peryglon GM yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ym mis Mawrth 2011 wedi ei ohirio. Ni phennwyd dyddiad newydd eto.

(c) Cofnod 369 Safonau polisi i'w cymeradwyo:

Nodwyd bod system electronig yn cael ei datblygu i gefnogi'r gwaith o baratoi asesiadau risg teithio dramor a phroses yswiriant y Brifysgol.

(d) Cofnod 373(i) Polisi dim ysmegu:

Gosodwyd nifer o arwyddion newydd ger mynedfeydd adeiladau. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymweliadau â'r safleoedd ar y cyd â'r adran Ystadau a Chyfleusterau a defnyddwyr y safleoedd i drafod gwahanol opsiynau i safleoedd unigol. Ystyrir y mater yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch.

378. ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Trafodwyd yr eitemau arwyddocaol canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor:

- i. Mae'r asesiad risg corfforaethol wedi cael ei droi'n fodel cynllunio ac asesu risg iechyd a diogelwch corfforaethol. Mae'r model yn nodi risgiau a chamau ac mae hefyd yn gosod safonau mewn meysydd risg. Nodwyd bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystyried bod Prifysgol Bangor ymysg yr arweinwyr yn y maes hwn.
- ii. SEQOHS – “Safe Effective Quality Occupational Health Service” Mae'r grŵp tasg yn cefnogi'r ymgyrch i ennill statws SEQOHS. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor i gytuno strategaeth i wasanaethau iechyd galwedigaethol y Brifysgol gael eu hachredu'n ffurfiol trwy'r safon sicrhau ansawdd newydd.

379.

ADRODDIAD RADON

Rhodddwyd crynodeb byr o arolwg radon y Brifysgol a'r adroddiad terfynol. Nodwyd bod y Brifysgol wedi ymateb yn sydyn iawn pan nodwyd bod radon yn risg yn ardal Bangor trwy gynnal arolwg mewnol a bu hynny'n fwy cost effeithiol oherwydd gwybodaeth y bobl oedd yn gwneud yr arolwg am yr ardal leol.

Mae pob adeilad a ddefnyddir (hyd at fis Rhagfyr 2010) bellach wedi ei arolygu, gyda gwybodaeth wedi'i theilwra i'r staff yn yr adeiladau lle'r oedd y mesuriadau radon yn uwch na'r lefel gweithredu. Mae mesurau lliniaru radon naill ai ar waith neu ar y gweill mewn trafodaeth gyda'r adran Ystadau a Chyfleusterau a chynghorwr gwarchod yn erbyn ymbelydredd y Brifysgol.

Nodwyd bod y Brifysgol mewn 'sefyllfa ragorol' i ymdopi ag unrhyw newidiadau yng nghyngor yr Asiantaeth Diogelu Iechyd ynglŷn â risg radon ac unrhyw newidiadau yn y lefelau gweithredu.

Diolchodd y Cofrestrydd Dr John Latchford a Suzanne Barnes am eu triniaeth ymarferol a chymesur o'r peryglon radon ar ystâd y Brifysgol.

380.

ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Rhodddwyd crynodeb o'r adroddiad blynyddol a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Nifer yr achosion o ganu larymau tân: Mae'r cyfraddau ar eu hisaf ers i'r Brifysgol ddechrau eu cofnodi'n ffurfiol ac mae nifer y troeon i'r larymau gael eu canu'n ddiangen yn y neuaddau yn 49% yn is na'r cyfartaledd yn y sector AU.
- ii. Nifer y damweiniau a'r digwyddiadau: Nodwyd bod cynnydd bach yn nifer y damweiniau a achosodd anaf yn 2010, o 84 i 95, ond gallai hyn ddeillio o'r cynnydd yn nifer y staff a'r myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn parhau i gymharu'n ffafriol â sefydliadau AU eraill.
- iii. RIDDOR: Cafwyd gostyngiad yn nifer y damweiniau a'r digwyddiadau a adroddwyd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o 12 i 7 yn 2010. Nodwyd y gellir priodoli dau o'r tri RIDDOR i fyfyrwyr i un digwyddiad.
- iv. Hyfforddi staff: Cynyddodd nifer yr aelodau staff a gafodd hyfforddiant yn 2010 yn sylweddol o 572 i 880 ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.
- v. Archwiliadau iechyd i'r staff: Ers 2007, mae tua mil o aelodau staff wedi cael archwiliadau iechyd. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r archwiliadau'n darparu cyngor defnyddiol ac unigol i'r aelod staff ac mae hefyd yn ei gwneud yn bosib i'r agenda iechyd ganolbwyntio ar anghenion iechyd adnabyddadwy staff. Mae'r mentrau iechyd yn parhau i fod yn boblogaidd ac maent hefyd yn fwyfwy arloesol.
- vi. Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch: Mae'r adran yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth bwrpasol wedi ei theilwra i'r colegau, yr adrannau a'r ysgolion, gan nodi sut y gellir gwella iechyd a diogelwch a beth y dylid canolbwyntio arno.
- vii. Heriau: Yn sgil toriad 30% i gyllid yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, rhagwelir y bydd yr awdurdod yn symud tuag at swyddogaeth orfodi gyda chefnogaeth a chynghor cyffredinol yn cael eu darparu ar eu gwefan. Gallai hyn arwain at ragor o gamau gorfodi gan fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fwy tebygol o ymweld â sefydliadau er dibenion gorfodi yn hytrach na dibenion cynghori.

Croesawyd yr adroddiad a phwysleisiwyd sylwadau'r cyn gadeirydd ynglŷn â chynnal safonau er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr mewn cyfnod o doriadau ariannol.

381. UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Cynhelir cynhadledd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-orllewin Cymru 'The Ever Changing World of Health and Safety' ar 15 Medi 2011. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.
- ii. Mae'r rheoliadau adrodd ar anafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus (RIDDOR) dan adolygiad ar hyn o bryd i newid anafiadau 'dros 3 diwrnod' i anafiadau 'dros 7 niwrnod'.

382. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH 2011 – 2012

Prynhawn Mercher, 9 Tachwedd 2011 am 2 o'r gloch yn Siambr y Cyngor

Bore Mercher, 8 Chwefror 2012 am 10 o'r gloch yn Siambr y Cyngor

Bore Mercher, 23 Mai 2012 am 10 o'r gloch yn Siambr y Cyngor